CYHOEDDEDIG YR 20FED GANRIF.

RHYDDID GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

CYF. 17. RHIF 4.] EBRILL, 1917. [PRIS 2c.

CYNWYSIAD

LLEN A BYWYD. Gan Saunicol.

PAN DDAWR BECHGYN ADREF.

CYNLLUN IESU GRIST I SICRHAU IACHAWDWRAETH.

PA UN YW'R GREFYDD OREU?

Y DYDD YN ESTYN. Gan Anthropos.

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.

Y GWIRIONEDD A'CH RHYDDHA CHWI.

ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

DEFFRO! MAE'N DDYDD.

Deg Llythyr ar hugain 'At fy Nghydwladwyr.'

— GAN —

ATWEBYD, M.A.

"Y maent yn odidog, a chenadwri ymhob un ohonynt.....Ni chafwyd erioed ddim mwy amserol ac adeiladol na'r llythyrau hyn." — *Y Darian.*

PRIS SWLLT. CLUDIAD 2g.

Geiriadur Newydd Spurrell

Saesneg a Chymraeg. Argraffiad Diweddaraf.

Dan olygiaeth J. BODVAN ANWYL.

Wedi ei helaethu a'i adnewyddu.

Pris 4/-. nett. - - Cludiad 3c. y copi.

I'W GAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

CYFRES Y FIL.

Yn cynhwys y cyfrolau canlynol:—

MYNYDDOG	CERRIG Y RHYD . . .
SION CENT	GWAITH GLANYGORS .
GWILYM MARLES . .	ROBERT OWEN . . . .
ALUN	GWAITH ANN GRIFFITHS.

Pris Swllt. Trwy y Post 1/2.

I'W CAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

YR • YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda."

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1917. [CYF. XVII. RHIF 4.

LLÊN A BYWYD.

GAN SARNICOL.

YN hanes datblygiad dyn o'i gyflwr hanner anifeilaidd yn oesoedd y cynfyd, nid oes amheuaeth nad yw iaith wedi chware rhan bwysig yn ei dyfiant meddyliol. Yn wir, tybia amryw wyddonwyr mai iaith, yn fwy na dim arall sydd wedi ei alluogi i drechu pob math arall ar fywyd. Y gair, efallai, yw'r nerth mwyaf a ddaeth erioed i fodolaeth ar y ddaear. Fel yr adamant, mae'r gair yn cynrychioli

GWRES A GOLEUNI Y CANRIFOEDD COLL.

Words are fossil poetry, medd Trench; mae geiriau yn cynnwys trysorau meddyliol yr oesoedd. Pan ddechreuodd dynoliaeth barablu mewn iaith y pryd hwnnw y torrodd gwawr gwareiddiad ar y byd. Am oleu dydd diwylliant dynol gellir cymhwyso'r hen adnod adnabyddus: *"Yn y dechreuad yr oedd y gair."*

Pa filoedd o flynyddau aethant heibio rhwng dyfeisio iaith lafar, a'i gosod i lawr mewn nodau ar furiau garw'r ogof gyntefig ni ŵyr neb; ond nid oes amheuaeth nad dyfais gymharol ddiweddar ydyw ysgrifennu; ac yn ddiau, mae datblygiad ysgrifennu o bob math wedi bod yn llawer cyflymach na thyfiant iaith. Pan ddysgodd dyn drysori ei feddwl mewn iaith, gwnaeth gam enfawr ar i fyny; pan ddyfeisiodd ffordd i drysori ei iaith ar faen, a memrwn a phapur, gwnaeth gam arall ar ei flaen yn agos mor bwysig. Mae hanes yr oesau diweddar wedi dangos i ni ddylanwad aruthrol yr argraffwasg ar gynnydd gwareiddiad; ond er pwysiced yw, dichon nad yw yn agos cymaint a'r ddau gam a'i rhagflaenodd.

Mae dyfodiad iaith yn gwneud yn bosibl ddyfodiad rhyw fath ar lenyddiaeth; a chytunir yn gyffredin mai ar lun barddoniaeth

anghelfydd yr ymddangosodd llên gyntaf ymysg dynolryw. Rhyw faledi trwsgl yn codi o fywyd beunyddiol y bobl; dyna

Hwiangerddi Mabandod y Byd.

Ond gan mai o ben i ben yr ai yr hen ganiadau hyn, cyfnewidient yn gyflym, ac ymhen amser anghofid hwy. Er hynny, mae'n syndod meddwl am ba faith ganrifoedd yr erys ambell i bennill llafar gwlad, ac ambell i ddiareb a hwiangerdd nad ysgrifenwyd erioed. Yn ddiamheu, mae'r dôn wedi bod yn gymhorth i gadw yn fyw ambell i bennill a haeddasai farw'n gynt onibai am fywyd y beroriaeth a'i daliodd cyhyd.

Pa bryd yn ystod ei ddatblygiad y dysgodd dyn ganu? Lawer mil o flynyddau wedi ffarwelio a'r epa, mae'n ddilys gennyf. Ni chreodd natur greadur mwy amherorus na'r mwnci; ac nis gwn am un math ar anifail, oddigerth yr aderyn, a fedr amrywio nodau eu llais gyda'r amcan o fod yn felodaidd.

Er na wyddom y modd y daeth y ddawn o ganu i feddiant dyn; ai drwy ddatblygiad ai yn arbennig oddiwrth y duwiau, hyn sydd sicr ei bod wedi dirfawr gyfoethogi bywyd, ac efallai mai y ddawn hon yw mam llenyddiaeth. Ac y mae meluster llais ei mam yn ngeiriau barddoniaeth, onid oes?

Heblaw fod canu geiriau yn bleser ynddo ei hun; yr oedd yn galluogi dyn i roddi mynegiant i'w deimladau ar achlysuron pwysig bywyd; mewn llawenydd a galar; mewn rhyfel ac mewn cariad. Nid yn unig yr oedd geiriau'r gerdd gyntefig a thrwsgl yn galluogi dyn i fynegu mwy na fedrai drwy gyfrwng ei iaith gyffredin; yr oeddynt yn haws i'w cofio a'u cadw; ac efallai, mai am eu bod yn help i'r cof y daeth mydr, ac odl, a chynghanedd (neu rhythm) gyntaf i fodolaeth. Mae'r un peth yn wir am y trioedd Cymreig. Mae'r ffurfiau caboledig hyn fel gemau—y dulliau goreu i gludo golud y meddwl, a'i gadw ar glawr. Mor hawdd yw cadw yn nhrysordy'r cof hen bennill fel y canlyn—

> Tri pheth sy'n ano'u nabod,
> Dyn a derwen a diwarnod;
> Y dydd yn troi, y dderwen yn gou,
> A'r dyn yn ddou wynebog.

Ac onid oes cyfoeth o brofiad dynol wedi ei grynhoi ynddo? Gwelwn mai codi o brofiad bywyd o hyd mae'r llenyddiaeth hynaf; a chawn wrth fyned ymlaen fod yr un peth yn wir am bob llenyddiaeth; y bywyd dynol yw ei ffynonnell o hyd, er pelled y mae wedi llifo weithiau. Yn wir, po bellaf y rhed oddiwrth ei tharddle, mwyaf lleidiog yr aiff, nes o'r diwedd lwyr sychu o boni; llenyddiaeth wan yw honno sydd wedi crwydro bellaf o swn curiad calon y dyn neu'r genedl. Y mae cryn bellter o "Delynegion Maes a Môr" i "Ready Reckoner John Jones y Bwtshwr!"

Megys ag y gwel y gwyddonydd lysiau ac anifeiliaid yn trigo ar y ddaear heddyw ymhob graddfa o ddatblygiad; o'r milyn bychan sydd yn crynu wrth borth bodolaeth, i'r cawrfil yn y coed; o'r *Amoeba* un-gellog i'r dyn o athrylith a nerth anhygoel; felly, ceir pob ffurf ar lenyddiaeth yn bodoli yn ein mysg heddyw; o faled pen ffair i'r *South Wales Daily News*; o'r pennill plentynaidd yng Ngholofn Gymreig y papur wythnosol i Awdl yr Haf; o'r ystori adroddir gan y fam wrth y plentyn i un o Nofelau Daniel Owen. Ni wnai difynnu o lenyddiaeth y gwledydd ond ein gyrru i benbleth gan gyfoeth engreifftiau. Gan fod gennym ddigon o olud yn nes gartref boddhawn ar hynny. Mae Llên a Bywyd Cymru yn llawn ddigon i'w golygu yn y gofod sydd gennym at ein gwasanaeth. Yn unig cofiwn mai yr un deddfau cyffredinol geir yn cyssylltu Llên a Bywyd ymhob gwlad ac ymhob oes.

Cymerwn frasolwg ar lenyddiaeth y dydd yn Nghymru, h.y., Cymru Gymreig. Ychydig o newyddiaduron ein gwlad sydd yn adlewyrchu'n hollol ffyddlawn ei bywyd beunyddiol; mae ynddynt ormod o lawer o gawl ail-dwym Seisnig; maddeuem gawl ail-dwym cryf, iachus a Chymreig. Eto, ar y cyfan, mae'r papurau lleol, fel y rhai gyhoeddir yng Nghaerfyrddin ac yng Nghaernarfon, yn adrodd bywyd Cymreig, er fod llawer o'u colofnau yn Saesneg. Ond son y maent am ffair a marchnad; am *trotting match* ac ymdrechfa aredig; am gwrdd cystadlu ac eisteddfod; am gymanfa a chwrdd pregethu, a phethau ereill Cymreig ac amaethyddol. Ceir "Congl yr Awen" yn croesawu'r beirdd o hyd. Nis gwn am bapur Saesneg yn Lloegr sydd yn croesawu'r prydyddion fel hyn. Nid yw Llên y newyddiadur a'r cylchgrawn ond mynegiant o fywyd arwynebol gwlad. Mae arferion gwledig Cymru, a'i thueddiadau allanol, ei hannibyniaeth meddwl, ei Dic-Sion-Dafyddiaeth ddiniwed, oll i'w gweled ar dudalennau ei newyddiaduron.

Mae'r hen lenyddiaeth fodolai cyn y diluw—diluw'r argraffwasg, feddyliaf, ar ei thranc. Eto cenir hanes ambell i ysgelerder neu danchwa ar ben ffair yn Nghymru wledig hyd heddyw; ond druan o'r baledwr, mae'r argraffwasg wedi'n agos ei ddifodi; mae bron mor brin a rhai o'r creaduriaid cyntefig hynny sydd wedi llwyddo i oroesi chwyldroadau'r byd er tryblith y cynoesau. Y canwr baledi, onid tydi a Sion y Crydd yw cynrychiolwyr llenorion hynaf y byd? Tydi a'th gân drwsgl a thrwynol, ac yntau a'i stori gyffrous ac anwir. Gormod anghyfiawnder a thi dy osod i orffen dy yrfa yn Ngweithdy'r Undeb. O bererin bratiog. Mae ei grefft gan Sion y Crydd os na thâl ei stori iddo; yn wir, deallaf, fod ei stori yn help enfawr iddo ddilyn ei grefft; ond am Dai'r Baledwr druan, mae'r *Faner*, a'r *Journal*, a'r *Daily News* wedi ei amddifadu o'i fara chaws, heb son am ei gwrw—ac wele newyddiaduron cyntaf dynoliaeth yn marw o newyn yn nghysgod clawdd Banc y Ffair.

Mae'r cyfnodolion misol yn myned at haen ddyfnach o fywyd y genedl; y peth mae'r bobl yn ei wneud a geir gan mwyaf yn y newyddiaduron, ond yn y cylchgrawn cawn fwy o'r hyn a feddylir

ac a deimlir gan ddynion goreu'r werin. Bai mawr y newyddiadur yw dewis gormod o bethau difudd i'w croniclo, megys sothach y cwrt bach a llysoedd barn, hunan-laddiadau a llofruddiaethau; wedi'r oll, eithriadau bywyd yw'r pethau hyn. Mae cant o wŷr yn byw yn ddedwydd gyda'u gwragedd am bob un sydd yn anhapus, a dengmil yn byw'n gytun am bob un sydd yn cyhoeddi ei anedwyddwch teuluaidd i'r byd a'r Betws, yng ngholofnau'r papyr newydd. Hyn sydd yn cyfrif am raddfa isel aml i faled a phapur dyddiol ac wythnosol ym myd llenyddiaeth. Heblaw hyn mae'r math yma ar lên yn dioddef oddiwrth dlodi iaith. Gwan iawn yw Cymraeg y rhan fwyaf o'n papurau wythnosol; mae gormod o ol cyfieithu arno. Buasai'n well gennyf weled mwy o Gymraeg llafar gwlad na'r llediaith ddiasgwrn-cefn a geir yn ein newyddiaduron. Nid rhyfedd fod ein cydwladwyr yn troi fwy-fwy at y papurau Seisnig; cânt ynddynt hwy iaith a siaredir gan ddynion byw; ond mewn llawer o'n papurau Cymreig cawn iaith na lefarid gan neb byw, a geiriau a brawddegau na ddefnyddiwyd gan neb byw na marw. Mae'n gywilydd meddwl mai yn Lerpwl y cyhoeddir y papur mwyaf Cymreigidd yn y byd; o dri neu bedwar argreffir yn Sir Aberteifi mae'r rhan fwyaf o'u colofnau yn Saesneg.

Efallai fod mwy o ddarllen ar gyfnodolion enwadol nag ar ddim arall Cymreig, a'r rheswm am hyny yw fod crefydd o hyd yn rhan bwysig o fywyd dyfnaf ein gwlad, er fod y grefydd honno yn cael ei difwyno gan laid culni a sectyddiaeth. Ond y mae crefydd fel hon yn fil gwell nag anghrefydd rhai cenhedloedd sydd yn byw heb obaith ganddynt, ac heb Dduw yn y byd. Pa Gymro, teilwng o'r enw, na wyr am "Drysorfa'r Plant," a'r "Dysgedydd," a'r "Traethodydd?" Onid yw'r cyfnodolion hyn yn disgleirio fel ser yn ffurfafen ei febyd? Onid yw eu tudalennau yn dwyn yn ol iddo oriau mwyaf euraidd ei fywyd?

Hyd amser Daniel Owen ni chafodd bywyd Cymru fynegiant yn y nofel. Mae llawer awdwr wedi gwneud ymgais at gyfansoddi ffugchwedl cyn ac wedi amser y dilledydd talentog o'r Wyddgrug, ond cyfansoddiad difywyd yw bron pob nofel ond yr eiddo ef. Teimlwn mai bywyd Cymru sydd gan Ddaniel Owen; tyfiant naturiol yw ei chwedlau ef. Pethau gwneud yw llyfrau eigydymgeiswyr. Yn wir, dyma nodwedd nofel dda; mae yn fwy gwirioneddol na bywyd ei hunan. Nid yn unig mae ei chymeriadau yn fyw, ond gwelwn eu holl ysgogiadau mewnol; clywn guriad eu calonnau, yr hyn nad allwn ddweyd am y dynion gyfarfyddem ar y maes, yn y stryd neu yn y farchnad. Mewn llyfrau o'r fath hyn mae bywyd yn myned yn fwy ei ystyr, yn ddyfnach ac yn eangach. Gwelwn mewn ysgrifeniadau o'r fath hyn fel mae llenyddiaeth yn mynegu bywyd, yn ei esponio, ac ar yr un pryd yn ei gyfoethogi. Nid yr un yw'r gwr ieuanc, bywiog, llawn arabedd, neu'r hen wr gwledig, anwybodus, ond gonest, er y dydd y crewyd Wil Bryan a Thomos Bartley.

Efallai mai'r traethawd yw'r nesaf yn nhrefn datblygiad llén. Darlun amherffaith o fywyd, a mynegiant unochrog o hono a geir yn

y newyddiadur, yn y nofel a'r rhamant cawn ddarlun mwy byw a gonest ac esponiadol o fuchedd feunyddiol dyn ; ond yn y traethawd cawn ymgais at fynegu gweithiad ei deimladau a'i feddwl sydd yn treiddio yn ddyfnach, efallai, na'r ffugchwedl. Ceir cannoedd o draethodau gwychion yn hen gylchgronau Cymru ; ac y mae enwi Dr. Edwards, Hiraethog, S.R., J.R., ac R.R., y tri brawd enwog o Lanbrynmair, yn ddigon i adgofio'r Cymro llengar o'r rhan mae'r traethawd wedi chware ym mywyd ein cenedl. Llaeth y plentyn yw'r faled a'r rhamant ; ond bwyd y cryf yw'r traethawd, a gwelir bywyd Cymru ar ei gryfaf yn nhraethodau ei chewri, hen a diweddar. Mewn cylchgrawn Cymraeg yn ddiweddar y darllenais yr esponiad gore ar bynciau dyrus athroniaeth Eucken a Bergson ; ac ym ae'r "Beirniad," "Y Geninen," a'r "Traethodydd," yn dal o hyd i gyfLenwi ein gwlad a'r maeth llenyddol hwn.

Ond gogoniant gwerin Cymru ydyw'r deimladaeth honno sydd yn mynnu mynegu ei hun mewn cân ac englyn. Wrth gwrs, nid barddoniaeth yw yr olaf i ddadblygu o rywogaethau llên cenedl ; er mai hi yw'r ardderchocaf o honynt. Yn wir, fel y dywedwyd eisioes, prydyddiaeth o ryw fath yw llenyddiaeth hynaf pob cenedl ; am hynny, yn ddiamheu, y mae wedi datblygu i fwy perffeithrwydd na'r un gelf lenyddol arall. Ac y mae barddoniaeth Cymru heddyw mor fyw ag erioed, ac efallai fod beirdd ein gwlad heddyw yn deilwng o'u cymharu ac awdwyr cerddi unrhyw oes yn hanes ein cenedl.

(I'w barhau).

Y DIWEDDAR Mr. JOHN THOMAS, GLASBANT, TREGROES, LLANDYSSUL.

Ffarwel iti, gyfaill anwyl,
Mwy ni chwrddwn ar y llawr,
Hyd y llwybrau gynt fu'n wynion
Yn dy gwmni lawer awr.

Ffynon lawn o garedigrwydd
Oedd dy ddidwyll ddifrad fron,
Yn ei dyfroedd gellir darllen,
Penod loew cofiant John.

Dy fedrusrwydd fu'n gaffaeliad
I amaethwyr drwy dy oes,
Dan dy law, clefydau drengent,
Pfoai dolur, ciliai loes.

Gonest i'th argyhoeddiadau,
Gwrando wnest ewyllys rydd,
Drwy dy fywyd gwerthfawr cedwaist
Asgre lân, a chywir ffydd.

Heddyw'n mynwent Pantydefaid
Mae John Thomas, ddisglaer ddawn,
Mud yw'r gerdd—y gân a gollwyd
Dan gymylau hir brydnawn.

Cwsg yn mhlith dy hen gyfeillion,
Hun o seibiant—hun o hedd,
Mae gweithredoedd yn llefaru'n
Uwch na mynor ar y bedd.

CYFAILL.

PAN DDAW'R BECHGYN ADREF.

Mae'n tynnu ar dair blynedd oddi ar yr aethant allan, ac yn ddios yr oedd y teimladau yn wahanol iawn y pryd hwnnw i'r hyn fyddant pan ar ddychwelyd yn eu hol. Prif nodwedd y naill yw galar, a nodwedd y llall llawenydd. Teimlad o ddyledswydd cryf yn unig a'u galluogodd fwyaf o honynt i fynd allan—y teimlad i amddiffyn eu gwlad, ac i amddiffyn egwyddorion tragwyddol uniondeb a chyfiawnder, y rhai oeddynt mewn perygl o gael eu sarnu o dan draed y gelyn. Aethant allan yn llu mawr iawn a'u bywyd megys yn eu dwylaw, ac yn barod i'w roi i lawr er mwyn eu gwlad. "Cariad mwy na hwn nid oes gan neb; sef, bod i un roi ei einioes dros ei gyfeillion."

Ni welir mewn un alwad,
Wr o les, heb garu ei wlad.

Yn naturiol, dybiwn, yr oedd ofn a phryder yn nghalon pob un ar y pryd, nad pa mor wrol bynnag y ceisient ymddangos. Yr oeddynt yn gadael cartref, feallai, am y tro cyntaf erioed. Ie, sylwer, gadael cartref. Nid pawb ŵyr ystyr hynny. Gadael cartref, gadael tad a mam, o bosibl, gadael perthynasau a chyfeillion, gadael hen wlad eu tadau a'u mamau, hen wlad am yr hon y canasant neu a glywsant ganu lawer gwaith mor anwyl oedd ganddynt, ie, gadael, heb wybod a gaent y fraint a'r pleser o ddychwelyd byth yn eu hol. Anhawdd dweyd, Ffarwel!

With gwrs, mae y rhieni, os oes rhieni, a chyfeillion lu yn eu hebrwng ran o'r ffordd. Hwythau yn llawn mor drwm eu calon, ac fel rheol, feallai, yn fwy dangosiadol. Maent yn henach, a'u profiad yn helaethach. Gwyddant fwy am ystyr yr ymgyrch, am y miloedd sydd wedi syrthio, ac na ddychwelant byth yn ol, a'r miloedd eraill, cleifion ac anafusion, na fyddant byth yn alluog i wneuthur diwrnod o waith. Er chwerwed y brofedigaeth, a thristed y teimladau, maent yn falch o'u bechgyn, yn falch nad ynt i'w rhestru yn nosparth y cyfryw feddyliant am ddiogelwch eu crwyn yn fwy nag am eu gwlad. Ni charai un fam feddwl am ei mab yn gwneud

Ei *hunan*, yn ben ei nod,
Hyd ei yrfa nes darfod.

Pan mewn estron wlad, meddylia'r bechgyn lawer am eu cartref, ac os yn fechgyn da, cofiant anfon gair yn rheolaidd i adrodd hanes yr hwyl a'r helynt, a defnyddiant lawer dyfais i hysbysu pethau y gwyddant na chaniata'r *Censor* iddynt basio. Mae gan y Cymro yn ei iaith, fantais ar y Sais yn hyn o beth. Nid oes cennad iddynt ddweyd yn mha le y maent. Amhenodol iawn yw'r "B.E.F. yn Ffrainc." Os ysgrifennir unrhyw beth a ddichon fod yn help i'r Fgelyn, mae'r *Censor* yn ei flotio ymaith.

Nid teimlad cysurus sydd gan y bechgyn pan gânt eu hunain mewn gwlad estronol, ac ar y dechreu heb fedru deall gair o iaith y wlad; ac eto yn mhen ychydig deuant i deimlo eu bod yn raddol yn dyfod yn feistr ar iaith newydd. Mae'r ffaith fod Cymro, a Sais, a Ffrancwr ar yr un ochr, ac yn gwynebu yr un gelyn yn gwneuthur y cydymdeimlad yn berffaith. Mae yna wahaniaeth, with gwrs—gwahaniaeth rhwng cenedl a chenedl, ie, hyd yn oed rhwng Cymro a Chymro: gwahaniaeth tymer, gwahaniaeth safle gymdeithasol, gwahaniaeth mewn crefydd, mewn dygiad i fyny, &c. Ac eto, yn rhyfedd, anghofir hyn oll yn wyneb y gelyn, ac yn wyneb yr angen am help. Ni ofynir y pryd hwnw pa un ai Pabydd neu Brotestant, Eglwyswr neu Anghydffurfiwr, Annibynwr neu Fedyddiwr, Trindodwr neu Undodwr, &c., fydd dyn, anghofir pob peth ond

y ffaith fawr fod yna un mewn angen am help. Dileir pob enwadaeth, a cheir pawb yn barod i wasanaeth.

Mae rhywun yn ddiweddar wedi dweyd fod dynion wedi bod yn darllen testunau yn lle darllen y Beibl, wedi bod yn efrydu duwinyddiaeth yn lle efrydu Cristnogaeth, a'r canlyniad yw fod yr eglwys yn Mhrydain wedi ymrannu yn ugeiniau o enwadau, nes bod yn debyg i "Split P's"* yr Alban, ac fel y cyfryw maent mewn ymryson parhaus a'u gilydd yn nghylch pynciau nad ydynt erbyn heddyw o ddim, neu yn nesaf i ddim pwys.

Ac yn awr, i beidio anghofio ein penawd, gofynwn Sut mae hi i fod pan ddaw'r bechgyn adref? Beth am dad a mam? Beth am ein eglwysi? Fe fydd yna lawenydd gartref, a chroesaw calon, yn enwedig ar y dechreu, mewn llawer cysylltiad arall; ond gweddai i ni gofio, er mai'r un bechgyn fyddant mewn ystyr, ceir eu bod yn wahanol iawn i'r hyn oeddynt pan aethant allan. Cyn mynd allan ni wyddai llawer o honynt ond y nesaf peth i ddim am y byd mawr a'i bethau; deuant yn ol yn gwybod llawer, fe allai, y byddai'n well eu bod heb eu gwybod. Fe ddichon y bydd rhai yn methu dygymod a phethau a basient gynt yn ddisylw. Byddant wedi newid o ran ansawdd meddwl a theimlad, o ran syniadau am dduwinyddiaeth a chrefydd. Mae eu llinyn mesur wedi newid.

Dan yr amgylchiadau mae galw difrifol ar yr eglwysi i ddechreu meddwl beth fydd y peth gore i'w wneud. Credwn y bydd yr yspryd enwadol yn fwy o rwystr nag o help. Yn y cyffredin nid gwiw dysgwyl y bydd teimlad crefyddol y bechgyn yn gryfach na phan aethant allan. Nid dyna effaith arferol rhyfel. Deallwn fod y Y.M.C.A. wedi gwneud gwaith da iawn yn ystod y rhyfel, a dirgelwch pennaf eu llwyddiant oedd gwneud eu crefydd yn wasanaeth ymarferol, ac yn help mewn angen. A'r galw mawr fydd ar yr eglwysi i fod yn barod a'u cydymdeimlad a'u help lle bynag y bydd galw am dano. Mae'r galw yn y cyfeiriad hwnw eisoes. Mae yna galonnau fil mewn trallod a galar yn gofyn am foddion diddanwch a chysur am fod y bechgyn wedi eu symud, ac nad oes dychwelyd i fod iddynt mwy.

Cymered yr eglwysi ddalen allan o lyfr y Y.M.C.A. Boed iddynt gyfyngu eu hunain yn bennaf at ochr ymarferol bywyd, gan ddefnyddio'r holl ddoethineb sydd ganddynt i wynebu pob amgylchiad fel y bydd yn codi. Na, ni ddaw'r bechgyn yn ol yr hyn oeddynt cyn mynd allan. Deuant yn ol yn awyddus am *reality* mewn crefydd. Ni fydd ganddynt amynedd at unrhyw beth tebyg i ffug. Eto, os gall yr eglwysi gyflenwi eu hanghenion hwy ddeuant i fod yn gymeriadau cryfion ac yn aelodau dylanwadol. Rhaid i'r eglwysi gymhwyso eu hunain ar gyfer dychweliad y bechgyn a chyhoeddi cenadwri iach. Rhaid i'r pregethwr geisio deall y natur ddynol, a gwybod y ffordd i chwareu arni, yn debyg fel y gwna'r cerddor da chwareu ar ei grwth. Rhaid iddo ddyddori'r meddwl, cyffroi'r yspryd, symbylu'r dychymyg, ac arwain ei wrandawyr i awyrgylch uwch o feddwl a theimlad. Llwyddiant iddo.

S. N. S.

* Mae'r Presbyterians (Ps) yn amryw enwadau.

CYNLLUN IESU GRIST I SICRHAU IACHAWDWRIAETH.

Un pwngc mawr ag y teimla pawb ddyddordeb ynddo ydyw,

PA FODD I FOD YN GADWEDIG?

Cydnebydd pawb nad oes dim arall mor bwysig yn ei berthynas â dyn. Eto ni chytuna pawb mewn perthynas i'r ffordd i fod yn gadwedig. Ymranna pobl yn enwadau lawer, a deil pob enwad mai ganddo ef y mae cynllun iachawdwriaeth. Geilw pob enwad ei gynllun yn un Cristionogol. Ond nid iawn ydyw galw y cynlluniau hyn yn Gristionogol: dylid galw pob un o honynt yn gynllun yr enwad a'i deil.

Mae y cynllun Cristionogol, hynny yw, yr un a ddysgwyd gan Iesu Grist, yn hollol wahanol iddynt. Ni ddysgodd Iesu ddim yn eglurach na'r ffordd i fod yn gadwedig. Gofynodd rhyw gyfreithiwr iddo, "Pa beth a wnaf i gael etifeddu bywyd tragywyddol?" Cyfeiriodd yr Iesu at ddau o'r gorchymynion, sef caru Duw a'i holl galon, a charu cymydog fel ei hun, a dywedodd,

"GWNA HYN, A BYW FYDDI."

Mae atebiad yr Iesu yn glir, pendant, a therfynol. Nid oes lle i amheuaeth ynglyn ag ef.

Cyfrifid yr Ysgrifenyddion yn rai hyddysg yn y gyfraith, ac yr oedd eu dysgeidiaeth yn rhoi hawl iddynt, yn marn y bobl, i gyhoeddi cynllun iachawdwriaeth. Mae dysgeidiaeth dynion ar ol hyny, megis Augustine ac ereill, wedi rhoi hawl iddynt, yn marn pobl, i gyhoeddi cynllun iachawdwriaeth. Ond ar ol i Iesu Grist gyhoeddi ei gynllun ef, nid yw y ffordd i fod yn gadwedig yn beth ag y mae yn rhaid cael dysgedigion cyn ei ddarganfod. Mae mor syml fel y gall pawb ei ddeall, a gall hyd yn oed y bobl fwyaf gyffredin wrthod unrhyw gynlluniau iachawdwriaeth nad ydynt yn gyson â hon.

Da genym weled y byd yn dod yn ol yn araf at addysg Iesu Grist yn mherthynas i'r ffordd i fod yn gadwedig. Mae dull syml Iesu o ddysgu egwyddorion bywyd tragywyddol wedi cael mwy o ddylanwad ar feddwl ac ymarweddiad pobl na'r oll ag y mae athronwyr a diwinyddion wedi ysgrifennu erioed. Ymddiddan pellach â'r cyfreithiwr yn mherthynas i'r modd i weithredu yr egwyddor o garu cymydog ydyw Dameg y Samaritan Trugarog; a thra y mae athronwyr a diwinyddion wedi bod yn ceisio chwilio i fewn i ystyron gwreiddiol geiriau ysgrythyrol, ac yn dadleu ynghylch dilysrwydd gwahanol rannau o'r Ysgrythyr, er ffurfio cyfundrefn o athrawiaeth i osod allan ffordd iachawdwriaeth, y mae y ddameg hon wedi penderfynu y mater yn derfynol.

Yr ydym am bwysleisio y pwynt hwn yn mherthynas i Ddameg y Samaritan Trugarog, oblegid defnyddir y ddameg yn fynych i osod allan y ddyledswydd o gydymdeimlo a chynorthwyo pobl fyddo mewn dioddefiadau, heb ganfod ei meddwl sylfaenol. Yr oedd i'r ddameg amcan dyfnach na chymeradwyo cydymdeimlad a chynorthwy. Perthyn i'r rhinweddau hyn fwy o werth na'r daioni maent yn gyfrannu i eraill. Mae ymarferiad o honynt yn ffordd iachawdwriaeth. Mae y ddameg yn gynllun iachawdwriaeth, ac yn dysgu mai

WRTH ACHUB ERAILL

y mae dyn yn achub ei hun. "Pwy bynnag a gollo ei einioes a'i ceidw hi."

Tebyg y caiff y cyfarwyddyd hwn ei ddibrisio gan rai eto fel cynt. Nid yw yn ddigon dwfn, nac yn rhoi achos i'r sawl a'i cred i ymfalchio eu bod wedi cael gafael ar ffordd

iachawdwriaeth sydd uwchlaw gallu y bobl gyffredin ei darganfod. Ymddengys yn beth uwch i siarad am ddrychfeddyliau mawrion nag ymdrafferthu i gyflawni pethau mor gyffredin ag a ddysgir gan Ddameg y Samaritan. Mae gan rai atgasedd at y cyffredin, a sychedant am y meddyliau diweddaraf y mae athroniaeth wedi dod o hyd iddynt, gan gredu fod hynny yn arwyddo dysgeidiaeth, ac yn eu dyrchafu hwy i safle uwchlaw pobl sydd yn glynu wrth addysg syml gyhoeddwyd gan rifoedd lawer yn ol.

Gwyddom na fydd i'r ysgrif hon gael nemawr o ddylanwad ar bobl felly. Yr oll garem ydyw gosod ger eu bron hwy, a cher bron pawb, un ffaith eglur. Cynygiodd Iesu Grist gynllun iachawdwriaeth, ac y mae mor syml a phendant fel nad all neb ei gamddeall.

Pe bae i ni fel enwad gynnyg y fath gynllun, cawsai ei ddiystyru oblegid y rhagfarn sydd yn ein herbyn. Ond

HWN YW EIN CYNLLUN NI;

ac er pob rhagfarn yn ein herbyn, y mae genym y cysur o fod ein ffordd ni o geisio iachawdwriaeth wedi cael ei gosod allan yn gyntaf gan Iesu Grist.

A.W.L.

PA UN YW'R GREFYDD OREU?

Y mae yn y byd lawer iawn o fathau ar grefyddau. Yng ngwleddydd y dwyrain y mae amryw a broffesir gan filiynau o fobl, megis Confusiaeth, Brahminiaeth, ac yn y blaen. Proffeswn ni y grefydd Gristionogol, yr hon a darddodd o Iddewaeth, un arall o grefyddau mawr yr hen amserau. O'r crefyddau hyn,

PA UN YW'R GREFYDD OREU,

agosaf i'r gwir? Etyb ymlynwyr pob un o honynt mai'r eiddynt hwy yw'r goreu, ac fod pob un o'r lleill yn fwy neu lai camsyniol. Gwelir hyn yn y byd Cristionogol. Y mae yn y byd Cristionogol uwchlaw deucant o enwadau, a chred ymlynwyr pob un o honynt mai'r ffurf o Gristionogaeth broffesir ganddynt hwy yw'r goreu. Y mae tu cefn i'r atebion hyn rym gymaint o ragfarn; a dull camsyniol ydyw o ateb y gofyniad uchod. Beth, ynte, yw'r dull goreu?

DYMA STORI

ddarlenais yng ngweithiau un o'r beirdd, ac ni fedraf ateb y gofyniad olaf uchod yn well na thrwy gyfrwng y stori hon. Yn mhell yn ol, yr oedd yn byw yn Jerusalem frenin, o'r enw Saladin, a Mohametaniad o grefydd. Yn yr un ddinas yr oedd Iddew, diarhebol gyfoethog, a elwid Nathan—Nathan y Doeth, fel yr adnabyddid ef yn gyffredin, ar gyfrif ei ddoethineb eithriadol. Un dydd clywodd Saladin am Nathan; a chan ei fod, ar y pryd, yn brin o arian, tybiodd y gallai ddyfeisio rhyw gynllun i ddarbwyllo'r Iddew i wneud y diffyg i fyny. Felly perodd iddo gael ei gyrchu i'r brenhindy. I ofyniad Nathan pam yr oedd wedi ei wysio i'w bresenoldeb, atebodd Saladin ei fod yn dymuno siarad ag

ef ar fater pwysig ; ond yn hytrach na dod at y mater hwn ar unwaith, dywedodd yr hoffai glywed ei ateb i'r gofyniad Pa grefydd yw'r goreu? "Iddew wyf fi," meddai Nathan ; "Mohametaniad wyf finnau," ychwanegodd Saladin, "a rhyngom ni ein dau fe saif y Cristion. O'r tair crefydd hyn ni all ond un fod yn oreu." Atebwyd ef gan Nathan drwy adrodd y stori ganlynol : "Yn yr hen amser, fe drigai yn y dwyrain ddyn oedd yn berchen ar fodrwy o werth annhraethol. I'r fodrwy fe berthynai hefyd y gallu i wneud ei pherchenog yn

Wrthddrych Cariad Duw a Dyn.

Cyn ei farw, darparodd y perchenog gwreiddiol i'r fodrwy fod yn eiddo i'w deulu am byth ; fel hyn—rhoddodd ef hi i'r un o'i feibion a garai fwyaf, gan orchymyn i hwnw a'i olynwyr wneud yr un modd. Hefyd, yr oedd y mab yn meddiant yr hwn yr oedd y fodrwy i fod yn arglwydd ar y gweddill o'r teulu. Yn mhen amser, daeth y fodrwy i feddiant tad, gan yr hwn yr oedd tri mab, y rhai, ar gyfrif eu hufudd-dod iddo, a gerid ganddo yr un fath. Perai hyn anhawster iddo i ba un o'r tri y rhoddai y fodrwy? Er dod allan o'r anhawster, rhoddodd orchymyn i eurydd i wneud dwy fodrwy mor debyg i'r un wreiddiol ag y medrai, yr hyn a wnaeth gyda chymaint llwyddiant fel na ellid gwahaniaethu rhyngddynt. Galwodd y tad ei dri mab ato, yn un ac un ; rhoddodd iddynt—i bob un—fodrwy a'i fendith ; yna, yn fuan, bu farw. Ar ol marwolaeth eu tad, dechreuodd y tri mab gweryla. Haerai pob un mai ganddo ef oedd y fodrwy iawn, ac nad oedd y lleill ond twyll. Ni ellid adnabod pa un oedd y fodrwy iawn, gan mor debyg oeddynt. Yn yr un modd, ni ellir penderfynu pa grefydd yw'r goreu, gan mor debyg ydynt i'w gilydd." "Yr wyt yn fy ngwawdio," meddai Saladin ; "yn sicr fe ellir dweyd pa un o'r tair crefydd a enwais yw'r goreu, gan fod digon o wahaniaeth rhyngddynt." I hyn atebodd Nathan

Fod Pob Crefydd yn Sylfaenedig ar Hanes ;

fod pob dyn yn ymddiried yn yr hanes sydd wedi ei drosglwyddo iddo ef ; ac nad oes gan un dyn reswm dros gredu mai ei hanes ef yn unig sydd iawn, ac fod pob hanes gwahanol yn gamsyniol. "Fel y mae Duw yn gwybod, y mae'r dyn yn iawn : rhaid i mi fod yn ddistaw," oedd unig ateb Saladin. "Nawr," meddai Nathan, "gadewch inni ddychwelyd at y tair modrwy. Fel y sylwais, cwerylodd y tri mab, a dygasant y mater o flaen barnwr. Tyngodd pob un fod ei dad wedi rhoi modrwy iddo ef, yr hyn oedd wir ; ac yn hytrach na chredu fod eu tad wedi eu twyllo, gwell ganddynt oedd haeru mai'r ddau frawd oedd yn euog o dwyll. Ateb y barnwr oedd na fedrai benderfynu rhyngddynt, gan nad oedd y tad yno fel tyst. 'Ond, arhoswch,' meddai, 'oni ddwedsoch y perthyn i'r fodrwy iawn y gallu i wneud ei pherchenog yn wrthddrych cariad Duw a dyn? Am ba un o honoch y mae hyn yn wir? Yr ydych yn ddistaw. Rhaid felly nad un o'r tair modrwy yw'r un iawn. Dyma fy nghyngor i i chwi : creded pob un o honoch mai ei fodrwy ef yw'r un wreiddiol, ac ymdreched pob un o honoch orthrechu'r lleill ym mhob rhinwedd gariadus. Yna fe benderfyna

Barnwr uwch na mi

y mater rhyngoch.'" Dyna'r stori. Pa grefydd, ynte, yw'r goreu? "Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt." Fel y taerai'r tri mab mai ei fodrwy ef oedd yr un iawn, felly y taera dynion crefyddol o blaid eu crefydd—pob un dros ei grefydd ei hun. Nid oes un grefydd berffaith. Y mae pob dyn yn dewis y

grefydd a ymddangosa iddo ef yr un oreu. Dyma'r unig brawf o'i gwerth —ydyw ein crefydd yn cynyrchu ffrwythau da—yn peri i'w phroffeswr i fyw yn iawn? Y mae pob crefydd yn werthfawr os oes buchedd dda yn tarddu o honi. Dyma wers ag y mae'r byd crefyddol yn araf iawn yn ei dysgu—y dylid barnu gwerth crefydd yn ol ei ffrwythau. Fe dysgid y wers hon yn fwy cyffredinol a thrwyadl, fe elai llawer iawn o wisgoedd allanol crefydd, ar y rhai y gosodir cymaint o bwys, i golli. Ac ennill annhraethol fyddai hynny —ennill yn yr ystyr hwn—y delai crefydd, wed'yn, yn fwy o allu yn y byd dynol nag ydyw.

NID BARDD.

Y DYDD YN ESTYN.

GAN ANTHROPOS.

I.

Y mae'r dydd yn estyn. Cysurus ydyw hynny, ar ol nosweithiau hir a thywyll. Da ydyw gweled rhywbeth yn mynd yn fwy pan y mae angenrheidiau a chysuron bywyd yn cwtogi. Mynd yn llai y mae nwyddau masnachol, o ddydd i ddydd. Mynd yn llai ac yn ddrutach y mae papyr—peth anghyffredin iawn. Hyd yn ddiweddar yr oedd digon o bapyr yn mhob swyddfa. Yr anhawsder, yn fynych, oedd cael digon o 'stwff' i'w lanw. Ond, hefyd, y 'papyr' sydd wedi mynd yn brin, ac anhawdd ei bwrcasu. Yn amser rhyfel y Crimea, fe gododdd pris y canwyllau. Yr oedd un hen wraig yn methu deall y pwnc. 'Y rhyfel yma ydi y rheswm, Sian Jones,' ebai'r siopwr. 'Beth!' meddai'r hen chwaer, 'a ydych yn meddwl deud eu bod nhw yn ymladd wrth oleu canwyll?' Clywsom son am 'ryfel bapyr,' yn nghyfnod yr ysgarmesoedd rhwng y beirdd ar ol Eisteddfod. Eithaf diniwaid oedd y rhyfel hwnnw. Nid oedd ynddo golli gwaed, er fod ambell frawd yn colli ei dymher. Ond prinder papyr sydd yn ein bygwth yn awr. Cwtogir y newyddiaduron, ac y mae'r cylchgronau misol mewn perygl am eu heinioes. Mynych y gwelid hanes rhywun yn 'darllen papyr' mewn cynhadledd. Yn y dyfodol agos, y mae lle i dybied y bydd hynny yn anmhosibl; ni fydd papyr i'w ddarllen o gwbl! Dichon mai bendith a fydd difodi yr arfer o ddarllen 'papyrau,' canys yr oedd llu o honynt yn sychion iawn. 'Amser cannu, diwrnod nithio,' ydyw'r cyfnod pryderus hwn ar bob rhandir.

II.

Ond y mae'r dydd yn estyn. Ac y mae hynny yn ddymunol a hyfryd. Y goleuni yn dod yn gynarach, ac yn oedi ychydig yn hwy. Gall deddf seneddol lywodraethu'r awrlais, ond nis gall lywodraethu'r dydd. Y mae deddfau'r cread yn anwybyddu pob ymyriad o eiddo dyn. Cysurus ydyw gwybod nas gall un pwyllgor gwtogi gwawr y bore a goleuni min yr hwyr. 'Efe a fydd fel y bore oleuni pan gyfodo haul foregwaith heb gymylau.'

Mis dyddorol ydyw Mawrth. Y mae mor gyfnewidiol. Efe ydyw Celt y misoedd, yn llawn afiaeth a

rhwysg. Y mae fel ambell gyfarfod amrywiaethol, a thipyn o bobpeth ar ei raglen. Gwga yn yr ystorm, cwyd ei lef yn y gwyntoedd, a gwena yn yr heulwen. Nid oes dim unffurfiaeth yn ei ddull a'i ddawn. Na, 'does dim yn 'gyfundebol' yn anianawd mis Mawrth. Y mae ei odfaon yn wedd-newidiol, a'i arddull yn llawn o'r annisgwyliadwy. Ni wyddoch beth a ddigwydd mewn diwrnod. Ceir y cyffrous a'r tyner; y llon a'r lleddf ar dannau ei delyn. Ond y mae ynni a hoen yn ei symudiadau.

Gyrrwch wyntoedd
Ar eich hyntoedd.

"*The wild west wind*" oedd eilun Shelley. Y fath fynd sydd ynddo! Y mae'n gyrru pobpeth o'i flaen. Sonir yn fynych am werth y *driving power* mewn byd ac eglwys. Dyna guddiad cryfder ein Prif Weinidog presennol. Y mae ganddo *driving power* anghydmarol. Efe ydyw y *wild west wind* yn y byd gwleidyddol. Tebyg ydyw mis Mawrth yn neuadd anian. Y mae ynddo *driving power* sydd yn ysgubo dros bob llannerch. Deffry fywyd anian o'i gwsg gauafol. Gwelir y blagur yn blaen-darddu, a'r 'anemon'—blodyn y gwynt—yn siglo yn ddifyr o flaen yr awel gref.

III.

Oedfa'r boreu ydyw mis Mawrth, —cyfnod gweinidogaeth y 'proffwydi bach.' Y mae cymanfa natur yn rhoddi cyfle iddynt hwy, a hyfryd ydyw eu cenadwri. Pwy a warafuna'r eirlys i draethu ei neges, a'r fioled i wasgar ei bersawr dan gysgod y gwrych? A phwy na saif i edrych ar oen bach, ac i wrando ei lais erfyniadol?

Miwsig oen yn maes gwanwyn,
O! y mae yn fiwsig mwyn.

Felused yw alaw aderyn, a'r gangen ddi-ddail yn siglo dan ei droed? Onid ydyw efe yn gweld y gwanwyn yn dynesu dros y bryniau pell? Hawdd canu pan fo'r goedwig yn deml y dail. Daw cantorion o'r de yr adeg honno. Hwy fydd yn y ffrynt yn uchel-wyliau'r haf. Ond mwynach i mi ydyw y cenhadon hedd sydd yn canu trwy ffydd, cyn dyfod y glesni a'r dail. Nid oes iddynt hwy gynulleidfa fawr, ac nid ydyw hynny yn bwysig yn eu golwg. Ond y maent yn cerdded llwybrau'r wawr, ac y mae ysbrydoliaeth yn llifo drwy y gerdd. Ardderchog ydyw cantorion Ebrill a Mai. Y gog yn y llwyn, a'r ehedydd yn nglas y nef. Ond gwerthfawr i lawer un o honom ydyw cantorion mis Mawrth. Y maent hwy ar randir proffwydoliaeth; yn canu gobeithion anfarwol, ac yn telori addewidion sydd i agor dorau'r wawr.

IV.

Y mae'r dydd yn estyn, a'r goleuni yn cryfhau. *The best is yet to be.* Nid yn ol y mae'r gweledigaethau goreu, ond ymlaen. "Daw'r holl addewidion i ben." Y mae byd newydd yn dod. Rhyw fis Mawrth ydyw heddyw yn hanes y gwledydd. Cyfnod y '*wild west wind*,' ond y mae ei ymdaith yn deffro ymadferthoedd cenhedloedd, ac yn parotoi y ffordd i wanwyn a haf. Gwneir pob peth yn newydd. Daw llenyddiaeth newydd i Gymru a gwledydd eraill. Y mae blaen y llanw wedi cyrhaedd eisoes. Nid ail adrodd yr hen bethau a wneir; nid degymmu y mintys a'r annis. Bydd y gwin yn newydd, a rhaid wrth gostrelau newyddion i'w drosglwyddo i fwrdd y wledd. "*Writers reflect only the life and thought they have known*," ebai Gwynn Jones, yn ei erthygl gampus ar 'Pantycelyn,' yn y *Welsh Outlook* am y mis hwn. Os cyfyng y bywyd, ac arwynebol y meddwl, nis gellir disgwyl llenyddiaeth rymus a byw. Ond y mae bywyd wedi ymledu a dyfnhau, a ffynhonnau'r dyfnder wedi eu hagor yn meddyliau dynion. Gofynnir cwestiynau newyddion, a daw atebion

newydd a dieithr i lawer o honynt.

V.

Ydyw, y mae'r dydd yn estyn yn myd anian, ac yn myd meddwl a moes. Clywir llais y gwynt. "*The voice of the wind is the voice of movement, of change, of hope. Where there is no wind, there is no growth.*" Dyna ydyw beirniadaeth, a'r 'uwchfeirniadaeth,' yn ol pob tebyg. Gall ddeifio, chwalu, a dymchwel ar ei hymdaith. Ond y mae bywyd yn tyfu dan ei dylanwad. Y crinddail a'r rhedyn gwywedig sydd yn diflannu o'i gwydd. Adnewyddir y coed a'r blodau. Llifa y nôdd i fyny i frig y pren, a gwelir blodau newydd ar y ddaear. Gellir ailadrodd geiriau Wordsworth, pan yn cyfeirio at y chwyldro mawr yn nechreu y ganrif o'r blaen –

Bliss was it in that dawn to be alive,
And to be young was very heaven.

"A CHAUWYD Y DRWS!"

Dyna oedd y testun, a'r pregethwr oedd y Parch. E. R. Dennis. Yr oedd y pregethwr, fel arfer yn gwneud y gore o'i destun, ac yn dyddori y gwrandawyr. Mae'r testun yn awgrymiadol iawn. Edryched y darllenydd ef yn ei gysylltiadau, ac fe wel fod yna le eang i'r dychymyg chwareu ynddo; ac eto, yn wahanol i arfer fe fethodd y pregethwr a dal ei afael arnaf y noson hono. Fe ddaru i'r testun fy ngyrru yn ol dros fwy na hanner can mlynedd o'r gorphennol at amgylchiad a gymrodd le pan oeddwn yn fyfyriwr yn Glasgow.

Gadawer i mi egluro. Y pryd hwnnw fe draddodid y ddarlith gyntaf o wyth i naw yn y bore gan yr athraw. O naw i ddeg yr oedd gennym yspaid o ryddid. Ac un bore, y bore teg cyntaf o'r gwanwyn, fe gwrddodd rhai o honom ar y maes helaeth perthynol i'r Coleg. Yno y treuliwyd yr awr o hamdden yn ddifyr iawn mewn amryw fath o chwareuon. Cofiaf fod yr Ysgotyn yn rhagori yn fawr yn yr Hec-a-cham-a-naid. Yr oedd y tair naid olynol, fodd bynnag, yn ddieithr iddo, ac wedi i mi roddi esiampl, nid oedd dim taw arnynt wedi'n. Treient beth allent, ond nid oedd dim llewyrch ar eu gwaith. Yr oedd yn rhaid i mi dreio gyda hwn a chydag arall drosodd a throsodd drachefn, a gorchfygu, wrth gwrs - nes y daeth yr awr i ben, a chyda hynny daeth y rhaid arall yn galw at yr athraw nesaf am un ar ddeg.

Ond i osod pen ar y stori. Gyda'r hwyr fe ddaeth canlyniadau'r ymdrech i glawr. Yr oedd y blino y noson honno gymaint fel y methwyd cysgu hyd oriau bach y bore, ac wedi methu cysgu fe ddaeth methu codi mewn pryd. Brysiwyd gyda'r gwisgo, a'r bwyta, a rhedwyd yr oll o'r milldir oedd rhwng y llety a'r Coleg. Pan aethpwyd i fewn i Scwar y Coleg, yr oedd y gloch, er llawenydd i'm calon, a symbyliad i'm gobaith, heb orphen canu. Felly parhawyd i redeg, ys dywed y Crythor Dall, "nerth y *gariau*," yn groes i'r Scwar gyda'r anadl yn y gwddwg. Yr oedd y Drysor yn y golwg, a gwelwn ef â'i law ar glicied y drws, a thybiaf iddo ef fy ngweled innau, ond pan oeddwn o fewn ugain llath dyna'r gloch yn stopio, a'r Drysor yn gorphen ei orchwyl a chauwyd y Drws!! Gadawaf i'r darllenydd ddychmygu'r canlyniad. Yr oedd y siomedigaeth yn fawr, a'r meddwl a'r teimlad mewn cyflwr anhapus iawn. Diannoeth, er gwaethaf y modd, yr oedd yn rhaid rhoi cyfrif i'r athraw am fy absenoldeb, a dywedyd sut y—Cauwyd y Drws!

R.J.J.

MARWGOFION.

CHWEFROR 17, yn 63 oed, bu farw'r Cynghorwr David Evans, Ffynonfair, plwyf Llanbedr, gan adael priod, dau fab, pedair merch, ynghyd a phum brawd a dwy chwaer, mewn galar dwys ar ei ol. Yr oedd wedi colli ei iechyd er's tua dwy flynedd, ac am ran fawr o'r amser hwn dioddefodd gystudd caled a phoenus iawn ; ac er fod ei symudiad i'w deulu yn golled ac yn achos galar, eto iddo ef yr oedd yn ddiameu yn ennill. Yn y cylch yr oedd yn troi ynddo, bu'n ddyn defnyddiol a gwasanaethgar, parod i wneud a allai ym mhob achos y gelwid am ei wasanaeth. Ag ystyried na chafodd ond cyfleusterau addysgol prin iawn ar ddechreu ei yrfa, yr oedd yn ddyn o wybodaeth eang, o feddwl treiddgar, ac o syniadau goleuedig. Pe wedi cael yr un fath gyfleusterau ag y mae plant yn gael yn awr, diameu y byddai wedi llanw lle amlwg iawn ym mywyd cyhoeddus ei amser ; ac yn ngwyneb ei anfanteision boreuol, clod oedd iddo ei fod wedi chwareu rhan mor amlwg mewn materion cyhoeddus ag y gwnaeth. Bu'n flaenllaw iawn gyda gwahanol symudiadau cyhoeddus, yn gyntaf, yn Nghellan a'r cyffiniau, wedi hynny yn nghymydogaeth Llanbedr a Llanwnen. Efe oedd un o'r arweinwyr yn "rhyfel y degwm" ym mhlwyf Cellan flynyddau yn ol. Heblaw yn y cysylltiad hwn, gwnaeth ei ran yn ffyddlon dros y syniadau gwleidyddol rhyddfrydig y credai ynddynt gyda'r fath argyhoeddiad dwfn. Fod ganddo argyhoeddiadau dyfnion, nid yn unig ar bynciau gwleidyddol, ond hefyd ar bynciau crefyddol, sydd wybyddus i bawb a'i hadwaenai yn dda. Beth bynnag a gredai, fe'i credai a'i holl feddwl a chalon, a bu'n ffyddlon i'w argyhoeddiadau hyd y diwedd. Am dymor hir bu'n aelod o Gynghor Sirol Ceredigion. Ei ymgyrch etholiadol bwysicaf oedd yr un fu rhyngddo ef a Mr. Harford, o Falcondale ; ac er mai methu wnaeth, eto cydnabyddid yn gyffredinol iddo ddod allan o honi yn anrhydeddus ; ac fel cydnabyddiaeth o'i wasanaeth etholwyd ef gan y Cynghor newydd yn Henadur. Parhaodd yn aelod o'r Cynghor o'r adeg honno hyd ei farwolaeth, a llanwodd ei swydd er boddlonrwydd i'r cyhoedd ac anrhydedd iddo ei hun. Ar ei symudiad o Gellan i Ffynonfair, yn agos i ddeuddeg mlynedd yn ol, ymgysylltodd ef a'i deulu a'r achos yn Nghapelygroes, a bu'n neilltuol o ffyddlon, hyd yr analluogwyd ef gan yr afiechyd a derfynodd, iddo ef, yn yr angeu. Nid oedd ei le byth yn wag ; nid oedd ei oreu byth ar ol. Gŵyr y sawl ddelent i gyfeillach agos ag ef fod pynciau mawr bywyd a thynged dyn yn apelio yn gryf ato, a meddai feddyliau clir, pennodol arnynt—meddyliau fuont yn gysur a nerth iddo yn ei gystudd olaf. Hebryngwyd ei weddillion gan dyrfa anarferol o liosog y dydd Gwener canlynol, i gladdfa'r teulu yn Nghapelygroes, yn ymyl ei "anwyl Herbert." Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, gyda chynorthwy caredig y Parchn. L. Williams, D. Cellan Evans, E. Evans (Soar), ac Oswald Williams. Traddodwyd y bregeth angladdol yn Nghapelygroes, dydd Sul yr 11eg o Fawrth, i glywedigaeth cynulleidfa fawr. Ymgysured y teulu yn y gobaith nad yw'r ymwahaniad ond dros amser byr yn unig.

MAWRTH 7, yn 35 mlwydd oed, bu farw John Lewis, mab hynaf Mr. Lewis Lewis, 2, Monumental Terrace, Cefncoed. Cwrddodd a'i ddiwedd mewn modd a ddygodd arswyd trwy y cymydogaethau cyfagos. Nid oedd ond newydd gyrhaedd at ei waith y boreu hwnnw, a thra yn parotoi ar gyfer y gorchwyl peryglus oedd ganddo mewn llaw yn y lofa, syrthiodd

tua haner cant tunnell neu ragor ar ei ben, ac yno y bu ei gorph am hedair-awr-ar-ddeg. Daeth y newydd fel saeth i gannoedd o galonau, oblegid yr oedd yr ymadawedig yn eithriadol boblogaidd, a hynny mewn amryw gylchoedd. Yr oedd yn enwog am ei dalent gerddorol, a bydd cof da am dano, nid yn unig yn mhlith ei enwad ei hun, fel arweinydd y Gymanfa Ganu perthynol i'r Gymdeithas Dde-ddwyreiniol, ond hefyd yn mhlith cymdeithasau cerddorol ereill na pherthynent i un enwad neilltuol. Ac yn ystod y blynyddau diweddaf hyn treuliasai ei holl amser hamdden yn cynorthwyo partïon hwnt ac yma yn eu gwaith o adloni milwyr clwyfedig. Yr oedd bob amser yn barod i helpu, ac yr oedd edrych ar ei angladd anarferol fawr, yn fynegiant o'r parch cyffredinol a fynwesid tuag ato.

Gadawodd i alaru'n ddwys ar ei ol, dad, tri brawd a phedair chwaer, yn nghyd a llu o berthynasau ereill. Nerth a gaffont i alaru yn rhesymol. Claddwyd ei weddillion y Llun canlynol yn nghladdfa yr Hen Dy Cwrdd, pryd y gwasanaethwyd gan y Gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. E. T. Evans ac E. R. Dennis (Aberdar); J. Davies, (Rheithor y plwyf), ac N. Hopkins (B.)

MAWRTH 12, yn 72 mlwydd oed, Evan Hopkins, Ty'r Capel, Capelybryn, Cwrtnewydd. Yr oedd yr ymadawedig yn gwanychu er's llawer o amser, a bu yn gystuddiol ac yn gyfyngedig i'w wely am amryw o fisoedd. Gweiniwyd arno yn dyner a gofalus gan ei chwaer, Miss Jane Hopkins, gyda'r hon yr oedd yn byw. Yr oedd yn aelod o eglwys Capelybryn. Hyderwn y bydd i'r lle gwag mae ef, ac eraill a gollwyd yma yn ddiweddar, wedi adael ar eu hol, beri i rywrai feddwl am eu dyledswydd i'w lanw, ac i gynal yr achos da yn mlaen. Claddwyd yr lau canlynol yn mynwent Capelybryn. Gwasanaethwyd yn ei angladd gan y Parch. J. Davies, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. L. Williams, a E. Glyn Edwards. Gadawodd ddwy chwaer mewn galar ar ei ol.

MANION AC HANESION.

LLWYNRHYDOWEN.—Nos Fawrth, Mawrth 6ed, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn yr hen gapel i groesawu un o'n gwroniaid adref ar ol bod ar faes y frwydr yn Ffrainc, sef Johnnie, mab John ac Elizabeth Evans, Moelhedogfach, Pontshaen. Ymunodd Private Evans a'r Fyddin ymhen ychydig ddyddiau ar ol i'r rhyfel dori allan. Bu yn Ffrainc am 17 o fisoedd, lle y gwelodd amser caled a llawer o dywydd garw. O'r diwedd cafodd ei glwyfo, a bu rhaid iddo dreulio rhai misoedd mewn Ysbyttai. Daeth torf luosog ynghyd ar y noson uchod i roi "croesaw adref" iddo, a chafwyd dwy awr hwylus iawn o siarad, adrodd a chanu. Cyn gorphen y cyfarfod dangosodd y dorf ei theimladau da tuag atto, a'i dymuniadau da iddo drwy anrheg deilwng iawn, yr hon a gydnabyddwyd gan J. Evans mewn araeth fer, dwt a phwrpasol.

ALLTYBLACCA.—Mawrth 7, cynaliodd yr eglwys hon ei Gwyl Dê flynyddol. Rhoddwyd y wledd eleni gan Mr. Evans, Arwerthwr, Llanybyther, a'i frawd, Mr. T. Evans, Dolau-uchaf. Er fod prisiau nwydd-

au ymborth wedi codi yn fawr ni welwyd arwyddion o hyny yn nglyn a'r wledd hon. Ni arbedodd y ddau frawd caredig draul, ac yr oedd y byrddau yn llawn o amrywiol bethau o'r defnyddiau goreu. Daeth nifer luosog iawn, o bob oedran yn nghyd, a mwynhaodd pawb eu hunain yn dda. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyngherdd. Cymerwyd y gadair gan y gweinidog, ac arweiniwyd yn fedrus, fel arfer, gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Bu plant a phobl ieuainc y lle yn hynod o ymdrechgar ar gyfer y gyngherdd hon, a thystiolaeth pawb oedd ei bod yn un o'r rhai goreu a gafwyd yma. Iawn y cyfeiriodd yr arweinydd fod yr oll yn amlygu chwaeth uchel a medr mawr. Teilwng yw crybwyll i Mr. George Evans, Ffoshelig, fod yn llafurus iawn yn dysgu côr y plant i ganu; a gwelwyd ffrwyth ei lafur y nôs hon yn y datganiadau rhagorol roddodd y côr. Cafwyd caniadau gan gôr o Llanybyther, a chan bersonau o fannau eraill. Ar ol i'r gweinidog ddatgan diolchgarwch yr eglwys i roddwyr y wledd, ac i bawb am eu gwasanaeth. Terfynwyd y cyfarfod drwy ganu yr Anthemau Cenedlaethol, Miss Jones, Inglis Cottage, a Miss Davies, Pleasant View, yn cymeryd yr unawdau.

Y Graig a Gellionen.—Cynhaliwyd dau gyfarfod yn Ysgoldy y Graig, nosau Sadwrn, Chwefror 10 a'r 24. Arweinyddion—Parch. D. G. Rees a Hirfryn, Alltwen. Beirniaid Llenyddol—Banos a Hirfryn. Cerddorol—Mr. W. J. Williams. Cyfeilyddion—Mr. H. H. Morgan; Master Haydn Morgan; Miss Blodwen Jenkins, Alltwen; Miss Mary Jones, Gellinudd. Trodd y cyrddau allan yn odidog.——Yn Ysgoldy Gosen, Trebanos, nos Lun, Mawrth 5, dan arweiniad Mr. Daniel John, Glyncoch, cawd cwrdd croesawiad o faes y gâd, dan nawdd y pwyllgor lleol, i'r cyfaill anwyl, Mr. R. M. Lewis, Pontardawe, gynt o Dynycae, Alltwen, yr hwn a aeth i'r Fyddin pan gyda ei waith fel Ysgolfeistr yn yr Alban. Daeth cynulliad rhagorol ynghyd, a chafwyd hwyl anarferol o ddechreu y cwrdd hyd ei ddiwedd. Wrth y berdoneg—Mri. Harry Jenkins, Pontardawe, a H. H. Morgan, Trebanos.

Arholiad yr Ysgolion Sul, Sir Aberteifi.—Cynhelir fel y canlyn:

Llun, Ebrill 9—Ciliau am 11 o'r gloch.
Eto —Rhydygwin am 2.
Eto —Cribyn am 4.
Eto —Capelygroes am 6.
Mawrth, Ebrill 10—Graig, Llandyssul, am 11 o'r gloch.
Mawrth, Ebrill 10—Pantdefaid am 2.
Eto —Llwyn (Hen) am 3.
Eto —Capelyfadfa am 6.
Mercher, Ebrill 11—Capelybryn, am 11 o'r gloch.
Mercher, Ebrill 11—Alltyblacca am 3.
Eto —Capelycwm, am 6.
Iau, Ebrill 12—Caeronen, am 2.
Eto —Brondeifi, am 4.

Yr Arholwr yw Mr. J. R. Thomas, C.M., Pontshan. Bydd yn hwylusdod mawr iddo i gael rhestr o'r enwau yn y Safonau yn mhob lle, a chael prydlondeb ar ran yr ymgeiswyr. Gofaled gweinidog pob lle am hynny. Yr Arholwr yn Sir Forgannwg yw y Parch. E. T. Evans, Aberdar. Anfonir gwybod i'r Ysgolion yno, trwy lythyrau, pa bryd y bydd yr Arholiad.—Lewis Williams.

Dymunem alw sylw arbennig athrawon a rhieni at waith yr arholiad eleni. Gobeithiwn gael nifer luosog o blant yn cynyg am yr arholiad. Bydd yn fendith i'n Ysgolion Sul, ac yn gaffaeliad cyffredinol i'r plant.

Cymanfa Ganu Ceredigion.—Derbyniasom awgrymiadau oddiwrth amryw gyfeillion yn ameu y priodoldeb o gynnal yr uchod o dan yr amgylchiadau eleni. A wna ein eglwysi drwy eu cynrychiolwyr ddatgan eu barn?

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

NEW SERIES OF

Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Two Shillings each net.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross. M.A.

Jesus and Christianity in the Twentieth Century. By Alfred Hall, M.A.

The Revelation of God in Nature and Man. By Edgar Thackray, M.A., Ph.D.

The Divine Element in Art and Literature. By W. L. Schroeder, M.A.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s.; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £22,947,804. **Paid up Capital .. £4,780,792 : 10 : 0.**

Reserve Fund .. £4,000,000.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1916.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz.:—			
£2 10s. 0d. per Share on 1,912,317 Shares of £12 each	4,780,792	10	0
„ Reserve Fund	4,000,000	0	0
„ Dividend payable on 1st February, 1917	322,703	9	11
„ Balance of Profit and Loss Account	243,538	5	10
	9,347,034	5	9
„ Current, Deposit and other Accounts	174,620,724	17	9
„ Acceptances on account of Customers	7,220,780	12	2

	£	s.	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £7,000,000) and Cash at Bank of England	47,973,686	4	4
„ Money at Call and at Short Notice and Stock Exchange Loans ...	8,844,377	19	10
„ Investments :—			
War Loans, at cost (of which £1,490,000 is lodged for Public and other Accounts)	33,399,534	13	6
Stocks Guaranteed by the British Government, &c.	326,406	10	0
British Railway Debenture and Preference Stocks, Corporation Stocks	1,924,813	0	4
Colonial and Foreign Government Stocks and Bonds	751,520	12	11
Sundry Investments	788,021	0	10
„ Bills of Exchange	23,336,817	0	9
	117,345,177	2	6
„ Advances on Current Accounts, &c....	63,868,856	17	4
„ Liabilities of Customers for Acceptances as per contra	7,220,780	12	2
„ Bank Premises, at Head Office and Branches	2,753,725	3	8